# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 2 Gorffennaf 2014** |
| Amser: | **09.00 – 11.09** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_02_07_2014&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Christine Chapman AC**<br>**Paul Davies AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Ann Jones AC**<br>**Julie Morgan AC** |
| Tystion: | **Jane Hutt AC, Gweinidog Cyllid**<br>**Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru**<br>**Matt Denham Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**Jo Salway, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Bethan Davies (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Richard Bettley (Ymchwilydd)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)** |

TRAWSGRIFIAD
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Craffu ar Gynnig Cyllideb Atodol 2014-15

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid; Jo Salway, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru; Matt Denham-Jones, Pennaeth Rheoli a Chofnodi Cyllidebau, Llywodraeth Cymru; a Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol ar Gynnig Cyllideb Atodol 2014-2015.

2.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid i anfon y wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Sut y caiff yr £1.6 miliwn ychwanegol ar gyfer yr iaith Gymraeg ei ddyrannu
- Enghreifftiau o brosiectau cyfalaf sydd wedi sicrhau arbedion o ran cost, a manylion y canlyniadau
- Sut mae'r £6 miliwn ar gyfer trafodion ariannol wedi'i ddyrannu hyd yma
- Rhagor o fanylion am yr addasiad i'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol ar gyfer Addysg a Sgiliau sy'n ymwneud â benthyciadau myfyrwyr

2.3 Cytunodd y Gweinidog Cyllid i ystyried y ffordd orau i ledaenu manylion am brosiectau llai (o dan £15 miliwn) a sut y maent yn ymwneud â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16

2.1 Trafododd yr Aelodau Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 gyda Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid; Jo Salway, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru; Matt Denham-Jones, Pennaeth Rheoli a Chofnodi Cyllidebau, Llywodraeth Cymru; a Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol.

3.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid i anfon nodyn ynghylch ble mae manylion cynlluniau menter preifat ledled y sector cyhoeddus yn cael eu cofnodi.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Gynnig Cyllideb Atodol 2014-15: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Blaenraglen waith: Hydref 2014

6.1 Trafododd yr Aelodau y rhaglen waith ar gyfer tymor yr hydref a'i nodi.